## Cofnodion Cyfarfod CCG Mis Medi 24.9.20

**Am 7.30yh Ar-lein**

**19:136: Presennol:** Siôn Ifans (Cadeirydd), Gwen Lloyd, William Owen, Gwenfair Davies, Gareth Owen, Aeron Pughe, Elwyn Vaughan

**19:137: Ymddiheuriadau:** Deryck Lewis

**19:138: Datganiadau o ddiddordeb** - Dim

**19:139: Cyflwyno a Derbyn Cofnodion Awst**

**19.39:1** Cynigiodd Gareth Owen fod y cofnodion yn gywir. Fe'i heiliwyd gan Gwenfair Davies a Bill Owen.

**19:140: Materion yn codi o'r Cofnodion**

**19:140:1: Yswiriant.** Mae'r yswiriant wedi cael ei thalu. Cafwyd Cais gan CAME i'r Cyngor wirio a oedd y swm y sicrwydd yswiriant yn ddigonol o ystyried bod y Cyngor yn berchen ar focsys ffôn. Penderfynwyd cysylltu ag Aled Griffiths a gofyn iddo wirio hyn.

**19:142: Cynllunio:** Mae perchennog tir yng Nghemaes, Iwan Jones, wedi cysylltu â'r Cyngor i egluro newid o ran ei geisiadau cynllunio gan leihau maint y plotiau fel eu bod o fewn cyrraedd mwy o bobl. Gofynnwyd am gefnogaeth y Cyngor i'r newidiadau.

**19:143: Materion Ariannol:**

**19:143:1: Cyfrifon ac Argymhellion 2019-2020 -** Mae'r ymholiadau'n parhau ynglŷn â'r tri thaliad i'r a gyflwynwyd i'r banc (ffioedd claddu a newidiadau i garreg fedd). Penderfynwyd cysylltu â Dafydd Ifans a Paul Hughes i wirio hyn.

**19:144: Gohebiaeth:** Cafwyd gwahoddiad gan PAVO i ymaelodi'n rhad ac am ddim. Penderfynodd y Cyngor ymaelodi eto yn ôl ei arfer.

**19:145: Adroddiadau'r Cynghorwyr**

**19:145:1: Materion Iechyd gan Gwenfair Davies** Nodwyd nad oedd cyfarfodydd ffurfiol arferol y Fforwm yn digwydd ar hyn o bryd. Derbyniwyd holiadur am cyngor neu wasanaethau meddygon teulu yn ystod cyfnod pandemig Covid-19a rannwyd gyda'r cynghorwyr.

19:145:2: **Y Cyngor Sir gan Elwyn Vaughan** Nodwyd y bydd adroddiadau'n mynd gerbron y Cabinet ynglŷn ag Ysgol Newydd Bro Hyddgen – gan gynnwys adran gynradd ac uwchradd, canolfan hamdden, pwll nofio a llyfrgell ar gost o 48 miliwn o bunnoedd. Prynwyd cae gerbron yr ysgol i'w ddatblygu'n faes chwarae i arbed y plant rhag gorfod croesi'r ffordd fawr at y Plas. Mae trafodaethau ar y gweill am adeilad Hyddgen, sef hen adeilad y chweched dosbarth, yn ganolfan ar gyfer trochi iaith a gweithgareddau cysylltiedig.

Bydd cyllid y priffyrdd yn cael ei leihau o 2.5 miliwn o bunnau o ganlyniad i wariant ar ofynion yn ymwneud â Covid.

Disgwylir i'r bont newydd Machynlleth fod yn weithredol yn 2022

**19:146: Materion eraill:**

**19:146:1:** Mynegwyd pryder ynglŷn â chŵn yn rhedeg yn rhydd ym mhentref Comins a'r cyffiniau gan ddychryn y plant yn ogystal ag ymddygiad anghymdeithasol, bygythiol ac afresymol gan berchennog y cŵn. Nodwyd mai mater i'r heddlu oedd hwn.

**19:146:2:** Nodwyd bod nifer o gaed wedi cael eu torri wrth ochr y ffordd rhwng Llanwrin a Ffridd Gate. Mynegwyd ofnau a diogelwch gyrwyr a thrafodwyd lles codi ffens neu a fyddai angen rhyw fath o rwystr cryfach er diogelwch. Penderfynwyd y byddai Elwyn Vaughan yn trafod y mater â pherchennog y tir.

**19:147:3**; Ceisir symud bancio ar-lein ymlaen. Bydd cyfarfod yn digwydd yn fuan iawn rhwng y Siôn fel Cadeirydd a'r rhai o'r cynghorwyr sydd ar y Mandate i'r diben hwn.

**19:148:4:** Nodwyd and yw'r person yng ngofal cofeb Cemaes wedi cael ei dalu. Gofynnir iddo gyflwyno anfoneb ysgrifenedig i'r Cyngor erbyn y cyfarfod nesaf. Mae Bill Owen wedi cytuno i siarad â'r person hwn.

Caewyd y cyfarfod am 8.20yh.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30 ar y 24ain o Hydref**